**JOHN DOE** **07234 567891 |** johndoe@google.com **|** LinkedIn

Myfyriwr Cemeg yr ail flwyddyn Prifysgol Caerdydd, sy'n gallu ymaddasu'n rhwydd ac yn frwdfrydig am addysg STEM ac allgymorth. Meddu ar sgiliau cyfathrebu a chyflwyno da wedi'u datblygu drwy brofiad gwaith. Rwy'n ceisio sicrhau lleoliad gwaith o fewn mentrau allgymorth STEM Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Gyfunol (UKRI) i ysgogi diddordeb y cyhoedd ym maes gwyddoniaeth, ac i annog pobl i ystyried cemeg o'r newydd ymhlith cynulleidfaoedd amrywiol. Awyddus i gyfrannu tuag at genhadaeth UKRI i ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd trwy gyfathrebu ac ymgysylltu ynghylch gwyddoniaeth mewn modd ystyrlon.

## ADDYSG

**Cemeg gyda Blwyddyn mewn Diwydiant (MChem),** Prifysgol Caerdydd — 2023 - 2027

- **Cyfathrebu Cemeg:** Cyfathrebu agweddau cemegol yn effeithiol i arbenigwyr a phobl sydd ddim yn arbenigwyr yn y pwnc a chyflwyno gwybodaeth wyddonol gan ddefnyddio dulliau amrywiol i gynulleidfaoedd sydd ag ystod o sgiliau gwyddonol.
- **Cyflwyniad i Gemeg Werdd a Chynaliadwy:** Gwerthfawrogi ac esbonio'r heriau presennol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, llygredd amgylcheddol, allyriadau $CO_2$, cynhyrchu gwastraff.

*Chweched Dosbarth Caerdydd* — 2021 – 2023

- **Safon Uwch:** Cemeg A*, Mathemateg A, Hanes B

*Ysgol Uwchradd Caerdydd* — 2016 - 2021

- **TGAU:** 11 x 9-4, gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a'r Gwyddorau

## PROFIAD PERTHNASOL

**Interniaeth Awdur Gwyddoniaeth,** *Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol* — Gorffennaf-Medi 2023

- Ennill profiad ymarferol mewn ysgrifennu gwyddonol a golygu testun drwy gyfrannu at erthyglau *Chemistry World.* Cyfleu cysyniadau gwyddonol cymhleth yn effeithiol i gynulleidfaoedd amrywiol yn unol â chanllawiau a safonau golygu.
- Cynnal gwaith ymchwil ar dueddiadau a datblygiadau cyfredol ym maes cemeg i gyfrannu tuag at gynnwys *Chemistry World.* Datblygais i sgiliau gwirio ffeithiau, dod o hyd i wybodaeth, a chyfosod llenyddiaeth wyddonol i gyhoeddi erthyglau manwl gywir a diddorol.
- Cynorthwyo i gynnal presenoldeb digidol *Chemistry World* wrth gyfrannu i ymgyrchoedd y cyfryngau cymdeithasol, creu cynnwys amlgyfrwng, neu gysylltu â darllenwyr trwy blatfformau ar-lein.

**Gwirfoddolwr**, *Gŵyl Wyddoniaeth Caerdydd* — Chwefror 2023

- Cyfleu cysyniadau gwyddonol yn effeithiol i gynulleidfaoedd amrywiol drwy siarad yn gyhoeddus mewn digwyddiadau ac arddangosiadau yn ystod digwyddiadau, meithrin mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd â syniadau gwyddonol.
- Cefnogi i gynnal digwyddiadau Gŵyl Wyddonol Caerdydd, gan sicrhau bod y digwyddiadau'n mynd rhagddo'n ddidrafferth ac i wneud y gorau o'r effaith y mae pob un gweithgaredd yn ei gael ar y gymuned leol.

- Dangos ymroddiad i genhadaeth y gwŷl drwy wirfoddoli amser ac ymdrech, gan gyfrannu at lwyddiant y digwyddiad, a meithrin ymdeimlad o gymuned ymhlith y rhai fu'n cymryd rhan.

## SGILIAU

**Cyfathrebu:** Medrus wrth gyfathrebu cysyniadau gwyddonol cymhleth i gynulleidfaoedd technegol, neu gynulleidfaoedd annhechegol gan ysgrifennu erthyglau, rhoi cyflwyniadau, a chymryd rhan mewn arddangosiadau yn ystod digwyddiadau. Dangos gallu i fod yn hyblyg wrth gyfathrebu'n ysgrifenedig ac addasu hyn ar sail llythrennedd gwyddonol y gynulleidfa sydd dan sylw, gan ddefnyddio iaith hygyrch a ddiddorol i addysgu'r gynulleidfa.

**Datrys problemau:** Sgiliau meddwl yn feirniadol a gwneud penderfyniadau da i ddatrys problemau cymhleth, wedi'i ddangos gan ddadansoddi problemau gwyddonol a llunio atebion arloesol yn ystod fy ngradd Cemeg. Addasu'n gyflym i sefyllfaoedd annisgwyl yn ystod digwyddiadau allgymorth, gan ddangos creadigrwydd a dychymyg i oresgyn rhwystrau.

**Sgiliau Trefnu:** Dangos sgiliau trefnu da, medrus o ran blaenoriaethu tasgau a rheoli amser wrth weithio at derfynau amser, rhagori wrth gydlynu tasgau, cwrdd â dyddiadau cau, a chyflawni cyfrifoldebau wrth wneud fy ngradd MChem a pharhau i ragori'n academaidd a chymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau y tu hwnt i'r radd.

**Gwaith tîm:** Mynd ati'n rhagweithiol i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â chydweithwyr trwy helpu pan fo angen, cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau tîm, a meithrin awyrgylch gwaith cydweithredol. Dangos sgiliau gweithio mewn tîm cryf yn gwirfoddoli yng ngŵyl Wyddoniaeth Caerdydd, gan weithio'n agos â gwirfoddolwr eraill a threfnwyr digwyddiadau i wneud yn siŵr bod y digwyddiadau'n mynd rhagddo'n ddidrafferth, gan gyfrannu at lwyddiant y digwyddiad.

## PROFIAD PELLACH

**Stiward digwyddiadau a Chynorthwyydd Gwasanaethau Cwsmeriaid,** *Stadiwm Principality* 2021 – Presennol

- Rhoi gwasanaeth cwsmeriaid arbennig tra oedd digwyddiadau'n cael eu cynnal yn Stadiwm Principality yng Nghaerdydd, gan sicrhau bod pob cwsmer yn cael profiad i'w gofio sy'n gadarnhaol.
- Rhoi cymorth gydag ymholiadau amrywiol a chefnogi tîm prysur i reoli amrywiaeth o dasgu i sicrhau bod digwyddiadau'n rhedeg yn ddidrafferth.
- Ymddwyn yn broffesiynol ac yn bwyllog wrth ymdrin â sefyllfaoedd heriol a gododd yn ystod digwyddiadau dan bwysau uchel, blaenoriaethu boddhad cwsmeriaid a'u diogelwch.

## DIDDORDEBAU

**Teithio cyffredinol** a theithio yn ystod blwyddyn allan sydd wedi rhoi cyfle i brofi llawer o diwylliannau amrywiol ac arwain at wella dealltwriaeth o amrywiaeth, ac i greu'r cysylltiadau gyda phobl o bob math o gefndiroedd diwylliannol a economaidd-gymdeithasol gwahanol.